Creation in CRISIS

A time for prayer and action



Ffoto: William.n

# Gwasanaeth LOAF

Gwasanaeth o addoliad wedi'i seilio ar Egwyddorion LOAF Christian Ecology Link
(gellir cynnwys pryd a rennir yn hyn)

***Ysgrifennwyd gan Ellen Teague ar gyfer Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon***

Mae'r gwasanaeth canlynol yn addas ar gyfer grwpiau Cristnogol bach a hoffai rannu gweddi, trafodaeth ac, o bosib, pryd syml o fwyd. Gallai fod yn arbennig o addas ar gyfer digwyddiad Eglwysi Ynghyd lleol adeg y Cynhaeaf/Amser y Greadigaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y posibilrwydd o rannu pryd syml, gan ddefnyddio bwyd a diod a seiliwyd ar egwyddorion LOAF Christian Ecology Link, hynny yw bwyd sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

Cynnyrch o'r ardal **L**eol, sydd wedi'i dyfu'n **O**rganig, yn rhoi sylw i les **A**nifeiliaid ac yn cael ei **F**asnachu'n deg.

Gellid defnyddio'r delweddau a ddarparwyd ar gyfer cyflwyniad Powerpoint a allai fod yn gefndir i'r gwasanaeth.

Gallai'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio hefyd gan grwpiau a fyddai'n hoffi defnyddio'r cwestiynau ar gyfer myfyrdod tawel, unigol.

### Emynau posib

*Popeth a Wnaeth ein Duw a'n Rhi*

*Nef a daear, tir a môr*

*Ewch allan mewn llawenydd*

*Jubilate Deo (siant Taize)*

### Gellid chwarae'r canlynol ar y dechrau neu'r diwedd

*All Good Gifts o 'Godspell'*

*I will tread the earth lightly (siant Geltaidd o Lindisfarne)*

*Bread of Life by Boyce and Stanley*

## Paratoadau

Argymhellir bod y cyfranogwyr yn eistedd mewn cylch, a bod pawb yn cael eu hannog i gymryd rhan. Wrth i Arweinydd 1 dywys y grŵp trwy'r gwasanaeth cyfan, bydd Arweinwyr 2 a 3 yn arwain myfyrdodau a gweddïau. Gellid gofyn i eraill sy'n bresennol fod yn gyfrifol am y rhannau o'r ysgrythur.

Awgrymir rhoi bwrdd bychan â lliain lliwgar yn y canol, gyda channwyll wedi'i chynnau a thorth o fara arno. Mae'r cyntaf yn arwydd o oleuni Crist a'r ail o ffrwythlondeb y ddaear sy'n darparu bwyd ar ein cyfer.


**Diolchiadau**

Mae Ellen Teague yn rhan o Dîm Columban JPIC ac yn ysgrifennu ar faterion Cyfiawnder, Heddwch ac Ecoleg.
Diolch i CEL am yr adnoddau ar egwyddorion LOAF www.christian-ecology.org.uk.



Ffoto: Jeremy Keith

## Cyflwyniad

Powerpoint: Delwedd o fenyw ar randir yn y DU

**Arweinydd 1:**

Yr adeg hon o'r flwyddyn, wrth ddathlu'r cynhaeaf, rydym yn diolch i Dduw am y bwyd sy'n rhoi maeth i ni. Ein bwyd a'n diod sy'n ein cysylltu'n fwyaf uniongyrchol â'r byd naturiol. Ond ydym ni mewn gwirionedd yn cydnabod hyn ac yn gwerthfawrogi rhoddion creadigaeth Duw?

Gadewch i ni fyfyrio, fesul dau neu dri efallai:

- Beth yw ein hoff fwydydd?
- Ydyn nhw'n fwydydd 'iach'? O ble maen nhw'n dod?
- Pa mor aml byddwn ni'n prynu cynnyrch lleol a/neu'n prynu'n foesegol?
- Ydyn ni'n tyfu ein bwyd ein hunain o gwbl?

## Edifeiriol

Powerpoint: Delwedd o ieir mewn cewyll

**Arweinydd 2:**

Mae egwyddorion LOAF yn ein hannog i fwyta cynnyrch o'r ardal **L**eol, sydd wedi'i dyfu'n **O**rganig, yn rhoi sylw i les **A**nifeiliaid ac yn cael ei **F**asnachu'n deg. Wrth i ni gwrdd i addoli Duw ein Creawdwr, rydym yn ymwybodol o gostau dynol ac amgylcheddol yr amrywiaeth aruthrol o fwyd sydd ar gael i ni.

Gadewch i ni gydnabod pechodau ein cymdeithas a'n rhan ni ein hunain yn y gwaith o ysbeilio rhoddion y ddaear heb barchu Creadigaeth Duw.

Powerpoint: Delwedd o fynydd o boteli

**Arweinydd 3:**

Rydym ni eisiau pob math o ffrwythau a llysiau, yn eu tymor ac allan ohono, faint bynnag o filltiroedd mae'r bwyd yn gorfod teithio. Mae cludo bwyd yn wastraffus, yn enwedig mewn awyrennau, yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r newid yn yr hinsawdd a achoswyd gan bobl. Mae gormodedd o becynnu a photelu yn defnyddio ynni diangen ac yn llanw safleoedd tirlenwi.

Am yr adegau pan ydym wedi methu â gwerthfawrogi costau amgylcheddol ein bwyd a'n diod, a heb gefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol.

**Pawb: Arglwydd, trugarha wrthym.**

Powerpoint: Delwedd o bysgodyn marw

**Arweinydd 2:**

Mae costau amgylcheddol amaethyddiaeth ddiwydiannol yn aml yn cael eu hanwybyddu. Mae perthi wedi cael eu dadwreiddio, pridd wedi colli ei ffrwythlondeb, tir ac afonydd wedi cael eu gwenwyno gan gemegion, a bywyd gwyllt wedi cael ei ddiystyru'n llwyr. Rydym bellach mewn perygl o newid bioleg bwyd am byth, gan fedi canlyniadau na ragwelwyd ar ffurf cnydau patent sydd wedi'u haddasu'n enetig ac sy'n cael eu rheoli gan gorfforaethau trawsgwladol.

Am yr adegau pan na fuom yn ostyngedig yn ein hymwneud â'r greadigaeth.

**Pawb: Grist, trugarha wrthym.**

Powerpoint: Delwedd o foch mewn caetsys

**Arweinydd 3:**

Rydym wedi trin anifeiliaid fferm yn greulon iawn, yn enwedig trwy'r ffermio ffatri sydd mor gyffredin, ac eto o'r braidd yr ydym yn meddwl am hynny o gwbl wrth i ni brynu pecynnau o frestiau cyw iâr neu selsig fel rhan o gynnig arbennig yn yr archfarchnad.

Am yr adegau pan nad ydym wedi hidio am gam-drin creaduriaid Duw er mwyn darparu bwyd rhad ar ein cyfer.

**Pawb: Arglwydd, trugarha wrthym.**

Powerpoint: Delwedd o gnwd yn cael ei chwistrellu

**Arweinydd 2:**

Ers amser hir rydym wedi goddef masnach annheg ac elwa ohono, wrth iddi amharu ar gyfleoedd gwledydd incwm isel a chymunedau yn hanner deheuol y byd i ddatblygu. Yn ein byd ni heddiw mae miliynau'n dal i farw o newyn bob blwyddyn.

Am yr adegau pan ydym wedi troi llygad dall at ecsbloetio a mwynhau cynnyrch bwyd cynhyrchwyr sy'n gweithio o dan amodau tebyg i gaethweision ac yn derbyn cyflog tila.

**Pawb: Grist, trugarha wrthym.**

Powerpoint: Delwedd o safle tirlenwi

**Arweinydd 1:**

Mae'r greadigaeth yn griddfan wrth i'r ddaear gael ei hysbeilio heb ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol. Am y pechodau hyn, sydd i gyd wedi cyfrannu at argyfwng y cread, gofynnwn am faddeuant gan yr Arglwydd.

**Amen**

## Darlleniadau o'r Hen Destament

Powerpoint: Delwedd o ardd yn Ynysoedd Pilipinas

**Genesis 9.3**
Bydd popeth byw sy'n symud yn fwyd i chwi; fel y rhoddais eisoes lysiau gleision i chwi, rhoddaf i chwi bopeth.

**Diarhebion 12.11**
Y mae'r un sy'n llafurio'i dir yn cael digon o fwyd, ond y mae'r un sy'n dilyn oferedd yn ddisynnwyr.

**Diarhebion 13.23**
Ceir digon o fwyd ym mraenar y tlodion, ond heb gyfiawnder fe ddiflanna.

**Eseia 25.6**
Ar y mynydd hwn bydd Arglwydd y Lluoedd yn paratoi gwledd o basgedigion i'r bobl i gyd, gwledd o win wedi aeddfedu, o basgedigion breision.

**Eseciel 47.12**
Ar y glannau oddeutu'r afon fe dyf coed ffrwythau o bob math, ac ni fydd eu dail yn gwywo na'u ffrwyth yn methu.

***Saib** – Amser i fyfyrio'n dawel cyn rhannu dealltwriaeth o'r darlleniadau.*

## Darlleniadau o'r Testament Newydd

Powerpoint: Delwedd o fara

**Mathew 14.19**
Ac wedi gorchymyn i'r tyrfaoedd eistedd ar y glaswellt, cymerodd y pum torth a'r ddau bysgodyn, a chan edrych i fyny i'r nef a bendithio, torrodd y torthau a rhoddodd hwy i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r tyrfaoedd.

**Mathew 26.26**
Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd Iesu fara, ac wedi bendithio fe'i torrodd a'i roi i'r disgyblion, a dywedodd, "Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff.'

**Actau'r Apostolion 2.46**
A chan ddyfalbarhau beunydd yn unfryd yn y deml, a thorri bara yn eu tai, yr oeddent yn cydgyfranogi o'r lluniaeth mewn llawenydd a symledd calon.

***Saib** – Amser i fyfyrio'n dawel cyn rhannu dealltwriaeth o'r darlleniadau.*

## Rhannu pryd o fwyd

**Yn y fan hon gellid rhannu pryd syml, ar ôl y weddi hon:**

**Arweinydd 1:**

Arglwydd, diolch i ti am y cyfle i rannu'r pryd hwn gyda'n gilydd.
Anfon dy Ysbryd i fendithio'r rhoddion hyn yr wyt yn eu rhoi i ni i gynnal ein bywydau.

Diolchwn i ti amdanynt, ac am dy holl fendithion,
yn enw dy Fab, Iesu Grist. Amen.

*Cyflwynwch dorth grawn cyflawn organig a bwyd arall syml sy'n glynu at egwyddorion LOAF gymaint â phosib, ac yna eu rhannu.*

Gadewch i ni fyfyrio yn ystod y pryd, fesul dau neu dri efallai.

- Ystyriwch brydau cofiadwy a gawsoch yn y gorffennol. Beth oedd yn eu gwneud nhw'n arbennig?
- Ai'r bwyd neu'r bobl roeddech chi'n rhannu'r bwyd gyda nhw oedd yn gyfrifol am hynny'n bennaf?
- Ystyriwch pa mor aml byddai Iesu'n rhannu pryd o fwyd gyda'i ffrindiau.
- Pa mor bwysig yw hi i eistedd o amgylch y bwrdd wrth gael pryd o fwyd?

## Diolchgarwch am rodd bwyd gan Dduw

Powerpoint: Delwedd o gynnyrch rhandir

**Arweinydd 1:**

Gadewch i ni ddangos ein diolchgarwch am roddion Duw.

Mae'r pridd cyfoethog, arogl y ddaear sydd newydd ei droi
**Pawb: yn dod oddi wrth Dduw**
Mae seiniau'r anifeiliaid a'r adar sy'n rhannu ein byd
**Pawb: yn dod oddi wrth Dduw**
Mae teimlad afalau ffres a gasglwyd yn y berllan
**Pawb: yn dod oddi wrth Dduw**
Mae'r llysiau o bob lliw a llun sydd i'w gweld ar stondin yn y farchnad
**Pawb: yn dod oddi wrth Dduw**
Mae blas pysgod sydd newydd ddod oddi ar y radell
**Pawb: yn dod oddi wrth Dduw**

(Gellir ychwanegu rhoddion eraill, gyda'r geiriau hyn yn dilyn
**Pawb: yn dod oddi wrth Dduw**)

**Arweinydd 1:**

Bendigedig fyddo Duw yn holl roddion y Greadigaeth
**Pawb: Amen**

Gadewch i ni gydadrodd Gweddi'r Arglwydd, sy'n cyfeirio at "Ein Bara Beunyddiol"

*Cydadrodd Gweddi'r Arglwydd.*

## Gweddïau o Eiriolaeth

**Arweinydd 1:**

Gadewch i ni weddïo ar Dduw.

Powerpoint: Delwedd o ddigwyddiad 'Live Simply'

**Arweinydd 2:**

Rydym yn gweddïo dros dy bobl, fel y bo i ni ddysgu rhannu ac arbed dy roddion, byw mewn parch at y greadigaeth a chytgord â'n gilydd. Gadewch i ni gymryd y cyfle hwn i edrych o'r newydd ar ein bywydau, i ailgylchu mwy ac i geisio byw yn symlach.

Arglwydd y Greadigaeth

**Pawb: Clyw ein gweddi**

Powerpoint: Delwedd o blentyn tlawd yn byw oddi ar domen sbwriel

**Arweinydd 3:**

Gweddïwn am nerth i fynd i'r afael ag anghyfiawnder, fel y bo pawb ryw ddydd yn cael cyflawnder a digonedd yn eu bywydau. Rho obaith a ffydd i ni yn dy bresenoldeb yn y byd.

Arglwydd y Greadigaeth

**Pawb: Clyw ein gweddi**

Powerpoint: Delwedd o'r Chwaer Dorothy Stang

**Arweinydd 2:**

Gweddïwn dros y proffwydi hynny yn y gymuned Gristnogol sydd hyd yn oed wedi peryglu eu bywydau i ddiogelu bywoliaeth gynaliadwy a lles ffermwyr bychain ar draws y byd.

[Pobl megis y Chwaer Dorothy Stang, a lofruddiwyd yn fforest law yr Amazon yn Brazil yn 2005 am geisio diogelu'r goedwig a ffyrdd cynaliadwy o fyw ar gyfer cymunedau yno][1]

Arglwydd y Greadigaeth

**Pawb: Clyw ein gweddi**

Powerpoint: Delwedd o lanhau'r amgylchedd

**Arweinydd 3:**

Dangos i ni sut mae parchu'r byd naturiol a gofalu amdano, wrth i ni fyw gan ragweld sut le gallai'r byd fod, pan ddaw dy deyrnas a phan wneir dy ewyllys.

Arglwydd y Greadigaeth

**Pawb: Clyw ein gweddi**

[1] Cynhwyswch hyn os ydych yn defnyddio Powerpoint

## Gweddi i gloi

Powerpoint: Delwedd o fenywod yn casglu dŵr

**Arweinydd 2:**

O Dduw graslon, sy'n rhoi ffrwyth y ddaear er lles dy holl greaduriaid, diolchwn i ti am gynaeafau toreithiog a digonedd o fwyd. Gweddïwn dros y rhai sydd wedi'u hamddifadu o'r rhoddion hyn, a gofynnwn am dy faddeuant am ein rhan ni yn eu heisiau hwy. Gweddïwn dros y rhai na chlywir eu llais a'r rhai nad ydynt yn clywed. Maddau i ni pan fyddwn yn gwneud dewisiadau hunanol, a phan fyddwn yn anwybyddu'r angen am gynaliadwyedd ym mherthynas pobl â'r byd naturiol.

Powerpoint: Delwedd o fenyw o Affrica gyda'r cnwd

**Arweinydd 3:**

Yn fwyaf oll, o Dduw, diolchwn i ti am ddatguddio dy gariad yn Iesu Grist, a garodd y byd hwn a dod er mwyn i bawb gael bywyd yn ei gyflawnder mewn amgylchedd sy'n cynnal bywyd.

Gweddïwn yn enw Iesu.

**Pawb: Amen**

## Y Fendith

Powerpoint: Delwedd o wyrddni cefn gwlad

**Arweinydd 1:**

Boed i obeithion ffermwyr yma ac mewn gwledydd tramor gael eu cyflawni mewn cynhaeaf toreithiog.

Boed i ddigon o fwyd gyrraedd y rhai sy'n newynog heddiw.

Boed i galonnau'r rhai sy'n dinistrio'r amgylchedd gael eu cyffwrdd fel eu bod yn cymodi â'r Greadigaeth.

Boed i bobl ifanc ymhobman gael eu dysgu i werthfawrogi rhoddion Creadigaeth Duw.

Boed i chi gael eich bwydo â bwyd maethlon a bod yn ddigon sensitif i garu'r rhan fechan honno o'r greadigaeth a ymddiriedwyd i chi.

**Pawb: Amen**

***Rhannu Tangnefedd i derfynu***

Hysbysiad hawlfraint

Cyhoeddiad © 2009 Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Effaith mwd wedi sychu: Ioan Sameli